YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
ER MWYN Y FFRÂM.
ARHOLIAD YR YSGOL SUL.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxv.

Gorff. 1935

Rhif 7

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXV. GORFFENNAF, 1935. RHIF 7

" DOS I'TH YSTAFELL—."

Canys lle mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd.—MATHEW vi, 21.

* * *

NI all yr anwir byth ddod yn wir drwy dyfu mewn nerth.—R. TAGORE.

* * *

GWEITHREDWCH gydag eraill, er hynny dilynwch eich argyhoeddiadau eich hunain.—CHANNING.

* * *

MAE teithio yn obeithiol yn well na chyrraedd.—R. LOUIS STEVENSON.

* * *

BYDD barod i gondemnio dy weithredoedd, ond paid ag anobeithio am danat dy hun.—EPICTETUS.

* * *

MAE llawer un o gael ei gyfrif yn well nag yr oedd, wedi dyfod *yn* well.—JOWETT.

* * *

GWELL yw cyrraedd yr ychydig â'r gwirionedd na thyrfa gydag anwiredd.—S. H. MELLONE.

* * *

NID pan y daw yn well na'i gymydog mae dyn yn dyfod yn Gristion, ond pan y daw yn well nag ef ei hun.

* * *

I'R graddau y mae o fewn ein gallu i rwystro anghyfiawnder yr ydym yn gyfrifol am dano.

* * *

NID y dyn sydd ag ychydig ganddo yw'r dyn tlawd, ond y dyn sydd yn chwennych rhagor.

* * *

RHAID i'r dyn sydd yn dymuno i'w freuddwydion ddyfod yn wir ddeffro.

* * *

HOLLALLUOG Dduw, Arglwydd Nef a Daear, yn yr hwn yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod, gweddiwn arnat i fendithio ein daear ni a'th fendith gyfoethog Dy hun, fel y dygo ei ffrwythau yn eu pryd : bydded i ninnau, o gael ein digoni gan dy ddaioni di, roddi diolch i Ti, Rhoddwr pob Daioni.—Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

Yr Eglwysi Rhyddion a'r Llywodraeth.

Bu helynt a chyffro mawr yn ystod y mis ynglŷn â'r *manifesto* gyhoeddwyd ddechreu'r mis gan nifer o leygwyr a gweinidogion dylanwadol perthynol i'r Eglwysi Rhyddion. Mae'r datganiad yma yn mynegu anfodlonrwydd ei awduron ar wendid yr ymdrechion wneir gan y wlad hon i sicrhau heddwch yn y byd a bywyd gwell i'n pobl gartref. Dywedir nad yw proffesu diddordeb mewn heddwch a Chynghrair y Cenhedloedd yn ddigon. Rhaid i'r wlad wrth gynrychiolwyr yn y Senedd ellir dibynnu arnynt i weithredu yn unol â'u proffes, a rhoddi egwyddor o flaen parti. Gelwir ar etholwyr i ddefnyddio eu holl ddylanwad a'u hegni i sicrhau fod pobl yn cael eu hethol i'r Senedd sydd a'u holl galon o blaid pob mesur ymarferol i ddileu rhyfel, a'r elfennau sydd yn achosi rhyfel, ac i sefydlu cyfiawnder, ewyllys dda a heddwch ymysg dynion.

Gelwir sylw hefyd at drueni y di-waith ; dywedir fod eu hamgylchiadau truenus wedi bodoli am flynyddoedd mewn gwlad sydd a'i chyfoeth yn synnu cenhedloedd y byd, ac nad oes un ymdrech wirioneddol wedi cael ei wneyd i ymgodymu â'r drygau yma.

Gwahoddir pobl o bob parti i dynghedu eu hunain i ethol seneddwyr yn yr etholiad nesaf fydd wedi eu rhwymo i fynnu mesurau fydd yn gweddu i fawredd a difrifoldeb y problemau sydd yn ein wynebu.

Cyhoeddodd y manifesto y cynhelid cynhadledd ddechreu Gorffennaf, a'u bwriad i ffurfio "Cyngor Gweithredu i sicrhau Heddwch ac ail-adeiladu." Tasc y cyngor hwn fyddai cyffroi barn y wlad yn barod ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol sydd yn dod.

Ni ellir haeru fod gair allan o le yn y datganiad yma : ond y mae wedi achosi rhwyg yn yr Eglwysi Rhyddion. Ni all fod amheuaeth am achos yr anghytuno. Ymysg yr arwyddwyr mae Mr. Lloyd George.

Er i hyn gael ei wadu yn egniol, aeth y sî ar led mae mudiad politicaidd yw'r mudiad, wedi ysbrydoli a'i gefnogi yn ariannol gan Mr. Lloyd George. Gwrthododd Archesgob Caergrawnt fendithio y peth, a mynnodd aelodau dylanwadol o'r Eglwysi Rhyddion sydd yn y Llywodraeth weld yn y mudiad a'r manifesto ymosodiad uniongyrchol ar y Llywodraeth. I wneyd pethau yn waeth, clywyd fod ym mwriad trefnwyr y gynhadledd i roddi tri chant a hanner o'u hymgeiswyr eu hunain ar y maes yn yr etholiad. Effaith hyn oedd i ragor o bobl bwysig ymddiswyddo. Ar adeg

ysgrifennu mae y gynhadledd yn myned yn ei blaen a'r pethau arferol yn cael eu dweyd gan y bobl arferol.

Mae gwir angen am i'r Eglwysi ddeall ei gilydd ar broblemau byd a chymdeithas, gwir angen am iddynt godi llais unedig yn erbyn drygau cymdeithasol a chenedlaethol, ac yn erbyn castiau *politicians* a diogi seneddau, ond camgymeriad marwol oedd gwneyd ymosodiad moesol ac ysbrydol ar ddifudd-dra Senedd a Llywodraeth a phartion politicaidd, a chynnwys ymysg yr ymosodwyr Mr. Lloyd George, o bawb.

Mae lle i gredu fod y mudiad hwn wedi eu goll-farnu o'r dechreuad. Ni ellir ameu gonestrwydd pobl fel Dr. Horton a Dr. Scott Lidgett, ond yn sicr maent wedi eu cam-harwain yn enbyd i fedru credu y gall pobl Prydain gredu am foment mai moesol ac ysbrydol yn unig yw cymelliadau unrhyw fudiad sydd yn cynnwys ymysg ei arweinwyr y politician mwyaf cyfrwys o'r hiliogaeth i gyd.

Rhyddid ar yr Awyr.

Bu dau o'r "cewri" meddyliol yn traethu ar "Ryddid" dros yr awyr ym mis Mehefin, sef G. K. Chesterton a Bernard Shaw. Fel y gwyddis, Pabydd yw Chesterton, ac fel arfer manteisiodd ar y cyfle hwn i ganmol Pabyddiaeth ac i ymosod ar Brotestaniaeth. Pabyddiaeth greodd ryddid yn Lloegr, meddai ef, ac y mae y gwledydd Protestanaidd bron wedi difetha Rhyddid. I rywun sy'n gwybod rhywbeth am gyflwr gwerinoedd Pabyddol Ewrop, daw'r cwestiwn yn union,—Beth yn y byd olyga Mr. Chesterton wrth "ryddid"? A'r ateb yw, ei fod yn haeru mai hollol ddiwerth i'r dyn cyffredin yw rhyddid meddwl, rhyddid siarad, a rhyddid i addoli yn y ffordd a fynno. Ond mae wedi colli ei ryddid yn wirioneddol pan y rhwystrir ef i brynu diod feddwol ar ôl tri neu bedwar o'r gloch yn y prynhawn. Mae dyn yn gaeth am fod y Chwyldro Diwydiannol wedi ei symud o'i dyddyn moel, lle y gweithiai o godiad i fachlud haul, i'r ffatri neu'r swyddfa, lle y gweithia wyth awr o'r dydd!

Buasai yr ymdrech yma i'n gwneyd yn eiddigeddus o dyddynwyr y Canol Oesoedd, a gwladwyr Itali heddiw yn chwerthinllyd onibai fod y siaradwr â dawn gywrain ganddo i gael pobl i'w gredu; ond os buoch yn gwrando, ac yn credu, gwnewch yn siwr drwy ddarllen eich llyfrau hanes, a thrwy ofyn i ddyn yr *ice-cream* pan y cyfarfyddwch ag ef!

Bu cryn dipyn o ymosod ar y B.B.C. am ganiatau peth mor ddigywilydd o ragfarnllyd i ddod dros yr awyr. Gwir, maent wedi atal pethau cyn hyn oeddent yn llawer mwy diniwed, ond ni thâl i ni godi llef dros atal opiniwn neb. Rhaid ymladd y gwenwyn hyn drwy osod y gwir yn ei erbyn.

Wrth gwrs, mewn hanner awr o araith, byddai'n anodd hyd yn oed i Chesterton beidio dweyd rhywbeth ag oedd yn wir—ac mae digon o wir yn y frawddeg a ganlyn i wneyd i ni deimlo yn bur annedwydd. "Gall pob Prydeiniwr fynegu ei hunan, ac mae'r oll o offerynnau mynegiant (y papurau) yn eiddo i tua phump miliwnydd. Mae Seneddau yn rheoli, a chronfeydd di-reol partion politicaidd yn rheoli seneddau."

Aeth yr oll bron o araith Bernard Shaw i brofi yn ei ffordd ddiddorol a bywiog ei hun, yr hyn mae pob un ohonom yn wybod yn rhy dda o lawer. Nid yw rhyddid yn golygu i'r un ohonom gallu gwneyd "fel y mynnom". Ar wahan i bopeth arall, fe'n gorfodir i weithio am ein bywoliaeth, os nad ydym yn ddigon ffodus (?) i fedru gorchymyn eraill i weithio drosom.

Os digwydd i ni fod yn gweithio wyth awr y dydd mae gennym bedair awr i wneyd fel y mynnom, *os* bydd gennym arian i brynu y pleser a chwenychwn.

Dylem alw rhyddid, meddai Mr. Shaw, wrth ei enw priodol—hamdden ; rhaid i ni grio beunydd am ragor o hamdden a rhagor o arian i fwynhau ein hamdden, ond cyn eu cael rhaid i ni newid ein politics.

Ond mae Shaw, yn ein gadael yn y diwedd gyda'r cwestiwn sydd yn sicr o brofi yn fuan iawn y cwestiwn pwysicaf oll : O ennill ohonom lawer rhagor o hamdden a llawer yn rhagor o arian, beth wnawn a hwynt ? Fel y gŵyr Shaw, er na ddywedodd hynny, cwestiwn o addysg yw hwn, cwestiwn nad oes neb eto wedi ei wynebu yn onest ac yn effeithiol.

Bu Esgob Durham yn traethu hefyd ar Ryddid Crefyddol. Prif bwnc ei araeth ef oedd y berthynas rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Y peth mwyaf amlwg yn y sefyllfa heddiw, meddai'r esgob ydyw nad oes sail gwir Gristionogol i gymdeithas o gwbl. Mewn gwledydd gwerinol, y bobl gyffredin, drwy y bleidlais, sydd yn rheoli cymdeithas, ac nid yw y mwyafrif mawr o'r werin yn Gristionogion proffesedig o gwbl. Ond efallai fod yn rhaid i hyn fod cyn yr atgyfodir Cristionogaeth eto.

Mae'r esgob yn dadleu fod y ddadl ynglŷn â'r Llyfr Gweddi Cyffredin newydd, dro yn ôl, wedi profi yn derfynnol fod Eglwys Loegr yn gwbl ddarostyngedig i'r Wladwriaeth. Mae yn anniodd-efol fod Eglwys yn gorfod ymostwng i gael eu rheoli mewn pethau ysbrydol gan bleidlais pobl nad ydynt yn proffesu crefydd o gwbl. Nid oes ond un meddyginiaeth wrth gwrs—datgysylltiad, ac mae'r esgob yn dyheu am dano.

Cwestiwn arall pwysig drafodwyd gan Esgob Durham oedd cwestiwn addysg grefyddol mewn ysgolion dyddiol. Deil nad oes yr un gobaith y gall y rhieni ar yr aelwyd gyfrannu addysg gref-yddol all sefyll i fynu yn erbyn awyrgylch faterol yr ysgol ddyddiol. Mae hyn i gyd yn peryglu rhyddid.

Mae'r esgob yn dioddef oddiwrth geidwadaeth ragfarnllyd y mwyafrif o'i frodyr eglwysig pan y daw i sôn am Rwsia. "Yn Rwsia,—diffoddwyd rhyddid gan dywyllwch moesol 'ellir ei deimlo',—fel tywyllwch yr Aifft." Byddai rhyw ystyr i'r frawddeg yna pe byddai'r hen oruchwyliaeth yn Rwsia wedi caniatau rhyw fesur o ryddid i'r dyn cyffredin. Yr unig ryddid oedd yno oedd rhyddid i'r offeiriaid a swyddogion yr ymerodraeth ymuno i ormesu y bobl.

Ymosod ar Weriniaeth.

O sôn am esgobion a'u syniadau, mae'n werth myfyrio ar yr hyn ddywedwyd gan Esgob Exeter yn Nhŷ'r Arglwyddi yn y ddadl ar Fesur Llywodraeth India. Yr oedd yr esgob yn erbyn rhoddi mesur o hunan lywodraeth i India am ei fod yn erbyn gweriniaeth ymhobman. Cyfeiriodd at y ffaith fod America yn methu delio yn effeithiol a'r drwg-weithredwyr a daliai mae'r rheswm am hyn oedd fod gweriniaeth yn rheoli cyfundrefn y gyfraith. Naturiol ar ôl hyn oedd clywed fod yr esgob yn edmygydd gwresog o Fussolini a'i gyfundrefn. Cytunai a Mussolini fod gweriniaeth yn "anfoesol". "Tuedda gweriniaeth i lygru'r bobl, i'w gwneyd yn hunangar, i wneyd iddynt feddwl am eu lles eu hunain ac nid lles cymdeithas." "Gyda Rousseau y daeth yr heresi ddychrynllyd, fod gan bob dyn hawl gynhenid i bleidleisio. Yr hyn sydd gan ddyn hawl iddo yw llywodraeth effeithiol."

Mae'r esgob wedi llwyddo i anghofio y gellir addysgu dynion i ganfod na ellir sicrhau lles personol o'r radd uchaf yn y pen draw ond drwy sicrhau lles cymdeithas. Ymddengys hefyd ei fod wedi anghofio mai canolbwynt dysgeidiaeth yr Iesu ydyw gwerth cynhenid pob enaid dynol. Ond efallai nad yw dysgu hyn yn rhan o hyfforddiad esgob. Problem i hanesydd y dyfodol fydd darganfod paham y mae cymaint o esgobion ac uchel-swyddwyr yr Eglwys mor ddîg wrth addysg.

Iechyd yw darganfod fod gan weinidog Toriaidd ragor o ffydd mewn

Gweriniaeth ac Addysg

nag esgob. Mewn ymdrafodaeth yn Nhŷ'r Cyffredin, dywedodd Mr. Oliver Stanley, Gweinidog Addysg, y gall gweriniaeth fodoli mewn cenedl ddi-addysg, ond y caiff *fyw* mewn cenedl ddysgedig. Yr unig fan lle na all gweriniaeth fodoli ydyw cenedl wedi hanner ei addysgu. Yr oll mae addysg rad wedi wneyd mewn trigain mlynedd, meddai'r gweinidog, ydyw gwneyd gweriniaeth yn ddiogel i Edgar Wallace a'r Wasg Boblogaidd. Yr ydym yn araf yn dod yn ôl i gysylltu addysg lyfrau ag addysg profiad a bywyd, ac yn gwneyd gwir addysg ohoni. Y bobl sydd yn sefyll dros weriniaeth sydd yn mynd i ennill fwyaf oddiwrth hyn.

Crefydd ac Addysg.

Soniwyd am achwyniad Esgob Durham ynglŷn â methu cyfrannu addysg grefyddol mewn ysgolion. Gŵyr pawb wrth gwrs mai'r anhawsder mawr yw cael yr enwadau i gyd i gytuno pa fath o addysg grefyddol sydd i'w dysgu. Ceir geiriau craff ar y mater hwn gan Dr. Kenneth Saunders mewn ysgrif o'i eiddo. Yr angen pennaf yw . . . i (ddysgu) am Dduw sydd yn ddigon mawr i'r byd mae'r athro yn gwybod am dano mewn hanes a gwyddor ; . . . am syniad godidocach am ystyr a phwrpas bywyd ; am foeseg gyfaddas i'r plentyn sydd yn datblygu ; am ysgolion sydd yn wirioneddol Gristionogol. Ac i'r pwrpas yma nid yw diwinyddiaeth yn ddigon ; rhaid ei hadgyfnerthu ag anian a bywydeg—eangder a harddwch cymhleth y byd, ei undeb organig, ei berffeithrwydd manwl, yr oll o'r ffeithiau enfawr sydd yn rhwydd i ddod o hyd iddynt, ond a gollir yn aml yng ngwersi'r gwyddorau. Rhaid i grefydd i fod yn ymwybyddiaeth o barchedig ofn a rhyfeddod, o ddiolchgarwch ac addoliad.

Pwynt y datganiad yna yw nad oes well llwybr at Dduw i blentyn, na'r ymwybyddiaeth ddeuai iddo o drefn a harddwch a pherffeithrwydd y bydysawd pe y dysgid y gwyddorau iddo yn y ffordd iawn. Ond hyd y gwelir, ni all fod amser yn ein hysgolion i'r pethau hyn o gwbl. Mae eisiau pob eiliad i wthio i feddwl y plentyn y wybodaeth sydd yn angenrheidiol arno er pasio'r arholiad. Mae'n rhyfeddod fod gan unrhyw blentyn ar ôl mynd drwy'r ysgol ganolraddol, yr un serch na diddordeb mewn unrhyw gelf na gwyddor er ei mwyn ei hun. Ac o gael ei yrru yn benwan gan system haearnaidd, hawddach fyddai deall iddo gredu fod y diafol yn y gwyddorau nag iddo gael ei arwain i addoli Duw.

Y Papurau a Chrefydd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr yn Aberdâr ym mis Mehefin, ac yn ôl pob hanes, yr oedd yr oll o'r cyrddau ar lefel uchel iawn. Efallai mai prif weithred yr Undeb oedd ethol pwyllgor ymchwil i ystyried yr holl broblem ddiwydiannol yn y wlad heddiw. Yn sicr, ni all ond da ddyfod i weinidogion ac o eglwysi gael goleuni llachar y wybodaeth ddiweddaraf a manylaf ar broblem fawr yr oes.

Cwynai Dyfnallt, (ac yntau yn awr yn is-gadeirydd yr Undeb), yn y *Tyst* am y sylw prin gafodd cyfarfodydd yr Undeb yn y papurau dyddiol, ac yn enwedig yn unig bapur dyddiol Cymru.

O ddarllen nifer o lyfrau atgofion gan rai o wŷr mawr y wasg yn ddiweddar, fe'n argyhoeddir nad oes unrhyw gwestiwn o foesoldeb a delfrydiaeth yn dyfod i fewn i ystyriaeth o gwbl gan olygydd papur newydd poblogaidd. Nid yw crefydd yn "new-

yddion " o gwbl ; gallai yr holl enwadau uno yfory a gallai diwygiad newydd gymeryd lle, mor bwysig a'r diwygiad Protestanaidd ei hun ; a mae'n debyg y byddai rhyw sôn am hynny ; ond pe byddai i wraig rhyw arglwydd saethu ei garddwr ni fyddai yr un amheuaeth pwy gai y dudalen gyntaf. Ond daw crefydd i'r dudalen gyntaf o ddarganfod rhyw ddafad ddu ymysg yr offeiriaid neu'r pregethwyr (cofier am reithor Stiffkey).

Am bapur dyddiol Cymru, un o'r pethau mwyaf anffortunus ddigwyddodd i Gymru oedd cael ei chyfyngu i un papur " cenedlaethol " (!)

Mae atitiwd ein papur dyddiol at yr Eglwysi Rhyddion yn awgrymu fod y bobl yn y swyddfa yn methu anghofio dyddiau y Datgysylltiad, neu ynte *wedi* anghofio y Datgysylltiad ac yn parhau i gredu nad oes ond un Eglwys yng Nghymru. Tybed a ydyw'r elyniaeth wawdlyd tuag at yr Eglwysi Rhyddion yn swyddfa papur Cymru yn gwneyd unrhyw les i'r Eglwys Esgobol ei hun ?

Er mwyn y Ffrâm.

(Cyf. i. S.D., P.)

Nid dihareb na dyfyniad mo'r testun, ond cyn belled ag y mae pob ergyd y sydd yn mynd gartre felly. Y mae athroniaeth ynddo ond ei weld, a'm hamcan innau yw ei ddangos i'r neb a fyn ei weld. Nid yw ond ergyd plaen, ac yng ngeiriau y *ring*—a knock out blow, a minnau fel y cwffwyr hynny y sydd yn edrych ar y sêr ar hanner cwffio. Ni fedrwn ddweyd dim. Yr oedd y cyfan wedi'i ddweyd, ac y mae yna ambell ddywediad di-ateb. Yr oedd hwn felly. Gwyddwn fod yr ergyd wedi dod i glwydo o weld y direidi chwareus yn llygad rhywun.

Y mae'r amgylchiadau a'r cymeriadau yn bwysig ; am dro rhaid cofio'r ffrâm.

Nid oedd ond prynhawngwaith teg o Fehefin, a minnau ar dro mewn ffermdy clyd a glân uwchben dyffryn Teifi. Odditani edrych y dyffryn cyn brydferthed ag unman yng Nghymru, a a Llanbedr fel brenhines ar ei glan. Treulio prynhawn oedd fy amcan i gyda hen gyfeillion, ond cefais fwy nag own wedi ei fargeinio amdano. Wedi crwydro i ryd ac i bont gan sôn am y byd a'r betws, a phobun yn achub ei gyfleu ar y llall, cefais fy nal fel nas daliwyd yr un aderyn gan us. Gyda llaw nid oes dim yn well gennyf na dal arall ond cael fy nal yn fy nhro.

Ymhob drama y mae'r cymeriadau yn bwysig. Merch ifanc ysgafndroed a'm daliodd, ond yn hollol onest, cofier. Cofiaf hi slawer dydd bron yn dechreu cerdded. Pe bawn fardd dywedwn gydag hen fardd gynt,—

" Ha, fe alwyd y Nefolion
I hollti aur yn wallt i hon."

Ni chofiaf liw ei llygaid a'u llond o ddireidi, ond gwn eu bod " gwedi eu rhoi mewn gwydr a haul ".

Beth arall a fedrir ddweyd amdani, ond ei bod yn berchen tafod ffraethbert, ac i'r neb a adwaenai *rywun* gynt, y mae " wedi ei phoeri ".

Aeth am dro i ddyffryn Aeron, a thebig a dynn at ei debig. Yno yr oedd ffermwr cyfrifol yn byw, a llygad yn ei ben at fusnes. Hwyrach y dwedid fod y gair gwaethaf ymlaenaf ganddo, ond y mae hen galon reit ynddo, ond mynd ati, a hen gyfaill i mi, a dyna lle ceir y clo.

Fel pob merch ifanc yr oedd wedi sylwi ar bopeth, hyd yn oed ar y lluniau ar furiau'r parlwr. Yr oedd yn falch i weld yno lun ei gweinidog—fy llun i—mewn het silc, yr unig un neu ddau dro y'i gwisgais cyn imi gael urddas y Cyngor Tref ynghlwm â hi. Fe ŵyr pawb na freuddwydia Town Councillor ddangos ei hun hebddi. Yr oedd wrth law felly, neu buasai raid i minnau fel llawer ei benthycia.

Ynghanol y siarad ffri a ffraeth, torrodd hithau ar draws y siarad, gan ddweyd,—

" Williams, e weles i eich llun mewn het silc ym Mhenbrynmawr pwy ddydd, ac yr och yn edrych yn dda."

Yr oedd fel cadno o slei, a meddwn innau'n ddifeddwl o dybio hyn ac arall,—" Sut y cafodd e fy llun i ? " . . .

" O, fe'i prynodd ar ryw sale ", meddai hithau, gan chware a mi fel pysgotwr yn chware â'r pysgodyn cyn ei ddal.

Yr own wedi pryfio 'chydig o feddwl fod dyn o fusnes wedi mynd i'r gost, er mai chwecheiniog a roes amdano, o brynu fy llun, a dechreuwn feddwl fod ganddo fwy o olwg arnaf nag a feddyliwn, ond daeth Sallie gan dorri ar draws fy myfyrdod a dweyd,— " Cofiwch, Williams, ei brynu wnath e, Er Mwyn y Ffrâm ! "

Os gwelodd neb air balloon yn byrstio, fe ŵyr sut y teimlwn i.

(Er mwyn cael y stori i gyd, gwell dweyd mai ar sale fy hen gyfaill y diweddar Dafydd Hughes, Ffynnonoer, y'i prynwyd, minnau a Charadog, arweinydd y côr mawr yn cael ein taro i lawr am ein gwerth, chwecheiniog yr un. How have the mighty fallen. Yr oedd yn dda gennyf ddeall fod Hughes wedi rhoi pobo ffrâm dda i Garadog a minnau, ac er i Lloyd ein prynu *er mwyn y ffrâm* y mae'r llun yn hongian ym mharlwr Penbrynmawr, ac i fod yno mwy).

Dyna'r helynt i gyd, ond fe darodd y frawddeg glo adref, nid yma, ond ymhob cylch. Tybed nad yw bywyd yn fâs a chul a diwerth yn aml oherwydd ein bod yn byw gormod o lawer Er Mwyn y Ffrâm.

Cofiaf yn dda glywed hanes tro digri am yr hen fardd Cerngoch. Ychydig o feirdd a fu yn dda eu byd arnynt, ac ambell un iawn ohonynt a fedrodd reteiro fel Sarnicol, a chanu fel yntau ym Mlodau'r Drain Duon. Yr wyf yn caru yr enw Blodau'r Drain Duon, ac ymhob pennill y mae'r draen yn pigo, ond dwedir mai draen y ddraenen wen sy'n wenwynllyd. Gobeithio nad canu ei brofiad a wna ym mhennill olaf ei lyfryn,—

Os am foddio'r Cymry golau,
Traethwch wrthynt am gyfrolau ;
Os dewiswch eu dychrynu,
Soniwch wrthynt am eu prynu.

Nid yw hynyna ond rhwng cromfachau.

Yr oedd Cerngoch yn well bardd na ffermwr ond odid. Yr oedd wedi claddu'i wraig, y stoc yn isel, a phopeth wedi mynd o chwith. Ond fe welodd Cerngoch ffordd allan o'r dyryswch, a phriododd wraig gefnog. Yr oedd stoc dda ar y fferm, a'r hen fardd yn dda ei fyd arno o ran amgylchiadau'r byd o leiaf. Daeth hen gyfaill i roi tro amdano, a rywsut fe ddaw cyfeillion gyda bod y byd yn gwella ar bawb. Yr oedd Cerngoch yn falch o'i stoc, ac meddai, heb feddwl fod y wraig yn clywed, "Dere mas i weld y 'na i".

"Nage," meddai Marged y wraig, "Nid y na i ond ein da ni, wath ni fydde'r da yma onibai fi".

Clwyfodd hyn yr hen frawd gan beri iddo ddweyd y gwir plaen.

"Eitha gwir, Marged," meddai Jaci, "ond cofia, fyddet tithau ddim yma, *onibai'r da*".

Nid oes eisiau esbonio'r ergyd. Yr oedd Marged ym Mhenybryn, fel finnau ym Mhenbrynmawr, Er Mwyn y Ffrâm.

Y mae eisiau siarad plaen.

Gwrandawaf beunydd ar bregethau dros y radio, a chlywaf apel am ffyddlondeb at y cwrdd a'r ysgol Sul, ond rywsut ni ddeallaf mohonynt. Caraf i fel hwythau yr hen sefydliadau, ond dylasai'r neges gyrraedd enaid na fynn gwrdd nac ysgol Sul. Y mae gormod o apelio yma Er Mwyn y Ffrâm.

Yr wyf yn fodlon mynd ymhellach a dweyd fod crefydd yn meddwl mwy am y ffrâm na dim arall, ac wrth y Ffrâm y golygaf yma sefydliadau. Y mae rhaid wrth sefydliadau, a rhaid hwyrach wrth enwadaeth a chrefydd fel y deallwn i grefydd, ond ofnaf ein bod yn gofalu mwy am y Ffrâm nag am achub enaid.

Pwy ddydd awn i dŷ gweddw dlawd, ac ni fedrwn lai na gwenu wrth weld dau neu dri llun—lluniau'r plant wedi'u pinio ar y wal

heb ffrâm. O holi fy hunan, dwn i ddim pam y gwenwn. Wedi arfer gweld pob llun yr own mewn ffrâm, a dyna i gyd. Yn ddiweddar, yr wyf wedi edrych dipyn yn glosach ar luniau, ac a chyffesu'r gwir yn blaen, yn naw o bob deg o'r lluniau y ffrâm yw y peth goreu o ddigon. Ond cael ffrâm dda, waith beth fo'r llun. Fe fyddai'n dda, pe gwnai pob cartref yng Nghymru spring cleaning o'u lluniau, gan daflu lluniau rhyfel ac uffern a'u tebig i uffern, a gadael i feddwl ieuanc Cymru syllu ar rywbeth prydferthach o lawer iawn. Nid wyf yn sicr na thalai y ffordd i Gymru wneud spring cleaning ym myd crefydd, ac edrych ar y lluniau a ddengys i werin gwlad, a chredaf y doi i weld y cedwir llawer dogma a syniad Er Mwyn y Ffrâm.

Y mae yna ormod o gamp-followers ym myd crefydd heddiw. Ni chymerant y byd am weld drysau'r capeli a'r eglwysi yn cau. Pam? Y mae gweddillion eu hanwyliaid yn gorwedd yno, ac yno byddant hwythau cyn bo hir. Y maent yn cadw'r drws ar agor "Er Mwyn y Ffrâm" mewn gwirionedd.

Adroddai cyfaill stori wrthyf dridiau'n ôl.

Yr oedd llwybrau capel a mynwent wedi tyfu'n las, a phenderfynwyd eu simento. Y sul cyntaf wedyn daeth tyrfa fawr ynghyd y tro cyntaf ers tro, ac meddai hen wraig hir ei thafod,—"Beth sy'n bod heddy te? Does dim mart? Pe baech chi yma fel hyn bob Sul fuse dim ise mynd i'r gost o simento'r llwybrau, fe fydden yn ddigon coch" . . . Chware teg iddi. Gwyddai fod y simento wedi'i wneud Er Mwyn y Ffrâm.

Darllenaf beunydd am wlad fawr fel Japan a'r Eidal yn gwneud hyn ac arall er mwyn yr ymerodraeth—Y Ffrâm. Y mae perigl i ddyn ac enwad a gwlad anghofio'r llun, a'r dyn y tu cefn i'r llun Er Mwyn y Ffrâm.

Ofnaf mai dyna berigl ein mudiad bach ninnau. Y mae perigl i ni golli yr ysbryd antur a'r cariad at ryddid a oedd ynom—colli ein hysbryd annibynnol Er Mwyn y Ffrâm.

Cyn gynted ag y daw y Ffram yn bwysicach na'r llun, Y Gymdeithasfa Gyffredinol na dyrnaid o Undodiaid syml Ceredigion, trefniant rhyw Dŷ'r Arglwyddi na chariad at ryddid ac annibyniaeth, yna bydd ein dyddiau wedi'u rhifo, ac mewn pryd. Gwn y ceir arian o Lundain ond ni fynnaf fi mo'm cadwyno er iddynt roi amdanaf gadwynau aur. Nid wyf yn Undodwr, ac ni fynnaf aros yn y mudiad onid oes iddo ryw amcan heb ei gadw'n fyw Er Mwyn y Ffrâm.

O.

Arholiad yr Ysgol Sul, 1935.

PLESER oedd darganfod fod nifer yr ymgeiswyr yn yr Arholiad Ysgrifenedig wedi cynhyddu eleni. Y cynnydd hwn ac ansawdd y gwaith yw'r ganmoliaeth oreu ellid fynegu i'r llawlyfr newydd.

Yr oedd pedwar-ar-bymtheg o ymgeiswyr yn Safon II, deg yn Safon III, a dau (dwy yn hytrach) yn Safon IV. Yr oedd yn amlwg fod yr oll ohonynt wedi gwneyd ymdrech deg i feistroli cynnwys y llawlyfr ; gellid tybio wrth rai o'r papurau fod y llyfr yn ei grynswth " ar gof " rhai o'r ymgeiswyr, ond awgrymai ambell frawddeg nad oedd " ar gof " yn golygu fod ystyr y peth yn glir. Ond ar y cyfan yr oedd safon y papurau i gyd yn wir uchel, ac nid oedd yr un amheuaeth nad oedd pob un yn llawn deilyngu tystysgrif.

Yr oedd cryn dipyn o amrywiaeth yn Safon II, fel y gellid disgwyl gyda'r plant ieuengaf. Yr oedd y papur goreu, eiddo Dannie Jones, Graig, Llandysul, yn neillduol o dda, yr atebion yn llawn, a'r iaith yn ddifai.

Yn Safon III, a chymeryd i ystyriaeth fod y plant yn hŷn, nid oedd safon y goreuon yn llawn mor uchel ag yn Safon II, ond yr oedd y gwaith yn fwy cyfartal,—dim rhyw wahaniaeth dirfawr rhwng y goreu a'r gwaelaf. Anodd yn wir oedd dewis y goreu ymysg yr ymgeiswyr geir yn y dosbarth cyntaf.

Yn Safon IV yr oedd gwaith rhagorol gan y ddwy ymgeisydd—y ddwy yn wir deilwng o anrhydedd, ond digon a dim ond digon o wahaniaeth i sicrhau cydwybod esmwyth i'r arholydd.

Ni allaf lai na theimlo y gwnai llawer o'r ymgeiswyr yn yr arholiad ar lafar waith da yn yr arholiad ysgrifenedig pe byddai ganddynt ryw ychydig o ffydd. Hoffwn apelio atynt i *fentro* blwyddyn nesaf. Dyna i gyd sydd yn eisiau.

Clywais ryw sî yng nghyrddau Alltyblaca fod y *rhieni* yn achwyn fod y cwestiynnau yn galed. Nid oedd un arwydd ar un o'r papurau dderbyniais i fod y *plant* wedi eu teimlo yn galed. Ond hawdd yw credu y byddai yn rhaid cadw rhai o'r bathodau hyd y flwyddyn nesaf pe'r rhieni fyddai yn eistedd yr arholiad ! Gwers : Rhodder " Hanes Iesu i Blant " yn faes llafur i ddosbarth y bobl mewn oed am flwyddyn.

Er fod yn rhaid i mi gydnabod fy mod yn mwynhau yn fawr y gwaith hwn o osod papurau ac arholi, ni fedraf lai na theimlo ei bod hi yn bryd i newid yr arholwr. Dyma y bumed flwyddyn i mi, ac nid da rhy o ddim.—T.L.J.

SAFON I (dan 10 oed).

CAERONNEN.—Picton Jones ; Jane Matilda Jones.

CAPEL-Y-GROES.—JENKIN IVOR JONES.

BWLCHYFADFA.—Sarah Jane Jones ; Hannah Elena Jones ; Annie Davies.

LLANDYSUL : Y GRAIG.—DILYS ELEANOR DAVIES.

LLWYNRHYDOWEN.—Myra Parry ; Evan David Jones ; Gwarnant Jones ; John David Jones ; D. Thomas Evans ; Gwyneth Williams.

PANTYDEFAID.—Glenville Jones ; John Carew Thomas ; Catherine Mary Davies ; Mary Elizabeth Jones ; Annie Gwendolen Davies.

RHYDYGWIN.—Lynn Davies ; Mary Evelyn Davies ; Hannah Jane Jones ; David John Jones ; Mary Eidwen Jones.

TREBANOS.—Rhiannon Davies ; Myra Davies ; Mair Hopkin ; Gwyneth Morgan ; Ray Hartnell ; Donald Phillips.

SAFON II. (Ar Lafar).

CRIBYN.—Thomas Lloyd Jones ; Jenkin Lloyd Jones ; Griffith Vernon Howells.

BWLCHYFADFA.—Megan Brown ; Getta Davies.

LLWYNRHYDOWEN.—Margaret Mary Evans ; William John Williams.

PANTYDEFAID.—Nancy Lloyd Davies ; Edith Heap ; Elwyn Davies ; Merwyn Thomas ; Chris Thomas ; Margaret Jane Evans ; Annie Mary Evans ; Gwyneth Thomas ; Mary Davies ; Jenkin Evans ; Benjamin Evans ; Sarah Cerdina Davies ; David Evans.

RHYDYGWIN.—David John Evans ; Ernest Davies ; Charles Jones.

TREBANOS.—Myfanwy Thomas ; Mary Phillips.

SAFON II. (Ysgrifenedig).

Bathodyn—Dannie Jones, Graig, Llandysul.

DOSBARTH I.—Douglas Rees Evans, Graig Trebanos ; Thomas Haydn Phillips, Graig, Trebanos ; Mudwen Williams, Graig Trebanos ; Mary Euronwy Thomas, Graig, Llandysul ; Phillip Thomas, Graig, Trebanos ; Mary Jones, Capelygroes.

DOSBARTH II.—O Ysgol Brondeifi : Nellie Nora Evans ; O Ysgol Caeronnen : Letty Jones, David John Jones, Evan Lloyd Davies ; O Ysgol Ciliau Aeron : Bessie Hughes, Joan Hughes ; O Ysgol Cribyn : Roy Roderick ; O Ysgol Graig, Trebanos : Mina Cope Hartnell ; O Ysgol Llwynrhydowen : Thomas Elfed Parry, Edward Benjamin Jones ; Margaret Anne Evans ; Annie Mary Jones.

SAFON III. (Ysgrifenedig).

Bathodyn—Nancy Patricia Bevan, Graig, Trebanos.

DOSBARTH I (*gydag Anrhydedd*).—Vernon Llewellyn Bowen Jones, Graig, Trebanos ; Betty Phillips, Graig, Trebanos ; Rachel Howells, Cribyn.

DOSBARTH II.—Rona Hughes, Ciliau Aeron ; Olive Roderick, Cribyn ; Winnie Bowen, Graig, Trebanos ; Gwen Ina Rees, Graig, Trebanos ; Joyce Jones, Caeronnen ; May Jones, Caeronnen.

SAFON IV. (Ysgrifenedig).

Bathodyn—Rachel Davies, Caeronnen.

DOSBARTH I. (*gydag Anrhydedd*).—Ray Rees, Capelygroes.

Marwgofion.

SUL, y 26ain o Fai, bu farw JOHN DAVIES, Rhydyfran Cottage, Clyngwyn cyn hynny, ger Cribyn, yn 76 oed, ar ôl cystudd caled o amryw fisoedd. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capel Cribyn y dydd Iau dilynol, pryd y daeth nifer anarferol luosog ynghyd i dalu iddo'r gymwynas olaf. Gadawodd mewn hiraeth o'i golli weddw, wyth o blant, wyrion (26 o nifer), ac orwyrion (3), un brawd, ynghyd a chylch eang o berthynasau. Gwasanaethwyd yn y tŷ, a phregethwyd yn y capel, gan ei weinidog, y Parch. Emrys Evans, Troedrhiw, a chymrwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. Lewis Williams, Benjamin Davies, ficer Llanwenog, a D. Evans. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb a amlygodd gydymdeimlad â hwy ar yr achlysur.

Mai 27, yn 70 oed, bu farw ANNE EVANS, Troedyrhiw, Tynwaun cyn hynny, plwyf Llanwnen, ar ôl nychtod maith, gan adael dwy chwaer, un brawd, a pherthynasau agos eraill, i hiraethu o'i cholli. Aelod ydoedd o Eglwys Soar, Llanbedr, a bu'n rhyfeddol o ffyddlon tra y'i galluogwyd, ac fe harddodd ei phroffes â'i chymeriad glân. Merch ydoedd i'r diweddar Simon Evans, Tynywaun, yntau'n aelod ffyddlon yng Nghapelygroes, a Mary Evans ei briod. Dydd Iau dilynol, hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes, y cynhebrwng yn gyfyngedig i ychydig gymdogion. Yn absenoldeb ei gweinidog, y Parch. Eirug Davies, M.A., gwasanaethwyd gan weinidog Capelygroes, y Parch. D. J. Jones.

Blin gennym orfod cofnodi marwolaeth DAVID PARRY, 8, Clettwr Terrace, Pontshan, Llandysul, yn 79 mlwydd oed. Bu farw Mai 28 a chladdwyd ef ym mynwent Pantydefaid, Mai 31. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Williams, Carmel (A) ; traddodwyd y bregeth angladdol gan weinidog Pantydefaid a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwyn. 'Roedd gair da gan bawb i gymeriad y diweddar frawd, ac oedd yn uchel ei fri fel crefftwr gonest a galluog. Cydymdeimlwn yn fawr â'i weddw a'i deulu yn eu hiraeth dwys. " Cyd-weithwyr Duw ydym ni."

Mai 31ain, yn 36 mlwydd oed, JOHN EVANS, Pleasant View, Alltyblaca. Yr oedd yn briod i Mrs. H. M. Evans, ail ferch Mr. Thomas a Mrs. Hannah Davies o'r un lle. Ni fu ei gystudd ond am ychydig ddyddiau. Collodd ei rieni tra yn blentyn, a chyda modryb iddo yn Llanfarian gerllaw Aberystwyth y cartrefai hyd iddo briodi. Yr oedd ers rhai blynyddau yng ngwasanaeth Cwmni y Crossville Buses, ac yr oedd ychydig ddyddiau cyn ei gystudd wedi cael ei hysbysu ei fod i gael ei ddyrchafu gan y Cwmni hwn i safle uwch yn eu gwasanaeth. Yr oedd yn foneddwr drwyddo : yn foneddwr yn ei wisg, yn ei ymadrodd, ac yn ei ymddygiad. Ymddangosai yn ddrych o siriol deb ac hapusrwydd, ac âi allan o hono heulwen oedd yn ymlid pob cwmwl fyddai yn ffurfafen bywyd y rhai y deuai efe i gysylltiad â hwy. Parai hyn ei fod yn ffafryn gan ei gydnabod. Meddai ar y ddawn i wneyd cyfeillion, ac yr oedd yn hoff gan fobl bell ac agos. Yr oedd yn nodedig o annwyl gan ei deulu, a theimlant hiraeth mawr ar ei ôl. Cafodd ei godi yn Gosen, eglwys y Methodistiaid, yn ymyl Llanfarian, ond ar ôl ymbriodi ymaelododd yn Alltyblaca. Claddwyd ym mynwent eglwys Capelybryn. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a chynorthwywyd gan y Parch. Canon D. A. Jenkins, Llanybyther, a Dewi J. Jones, Capelygroes. Yr oedd y cynhebrwng yn un lluosog iawn, a'r blodau-dorchau yn rhifo yn agos i ddeugain. Anfonodd Cwmni Crossville rai o'u pobl i'w cynrychioli yn yr angladd ac i amlygu ei parch i'r ymadawedig. Pedwar o'u bechgyn mewn gwisg unwedd oedd y cludwyr. Gadawodd mewn galar dwys briod, tad a mam yng nghyfraith, dau frawd, amryw o gefnderoedd a chyfnitheroedd a modryboedd.

" Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd."

Mehefin 13, yn 38 oed, bu farw y cyfaill ieuanc T. GEORGE MORGAN, mab Mr. a Mrs. Richard Morgan, 8, Cledwyn Terrace, Trecynon. Un o blant yr Hen Dŷ Cwrdd ydoedd, a bu yn un o'r ffyddloniaid ar hyd ei oes. Yr oedd ganddo barch diffuant i'r achos a gwelir ei eisieu mewn llawer cyfeiriad. Bu yn nychu am fisoedd lawer a dioddefodd boenau mawr yr wythnosau diwethaf hyn a hynny yn dawel ac amyneddgar dros ben. Yr oedd yn ddyn ieuanc o athrylith ac ymroad, llednais ei ysbryd a pharod iawn i wneud ei ran. Bydd hiraeth dwys ar ei ôl. Cyflwynwn i'w rieni ac i'w frawd ein cydymdeimlad dwysaf yn eu hiraeth a'i gofid mawr. Claddwyd Mehefin 17, yn y gladdfa gyhoeddus a gwasanaethwyd gan y Parchn. D. W. Lewis (B) ac E. R. Dennis.

Mehefin 14, yn 22 oed, bu farw HUMPHREY DAVIES, annwyl ac unig fab Mr. a Mrs. George Jones, Bryngwynau, plwyf Llanwenog, gan adael rhieni a chwaer mewn hiraeth dwys o'i golli. Er na fu'n holliach trwy'r gaeaf, eto byr a fu ei gystudd a chaled iawn. Bu am wyth blynedd yng ngwasanaeth Mr. Jenkins, Gorsgoch, fel gyriedydd modur, ac enillodd ymddiriedaeth lwyr ei feistr ar gyfrif ei rodiad cywir. Hoffid ef yn fawr, hefyd, gan bawb a'i hadnabyddai ; ac yr oedd iddo gylch eang o gyfeillion. Bu'r gladdedigaeth ym mynwent Eglwys Llanwnen y Llun dilynol, y Parchn. B. Davies, ficer a D. J. Jones, Capelygroes, yn gwasanaethu. Nos Sul, y 23ain, cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn Eglwys Llanwnen, y Parch. D. Jones, M.A., Ysgol y Coleg, Llanbedr, yn gwasanaethu.

Mehefin 22, EVAN DAVIES, Penrhiwlas, Llanarth yn 66 oed. Nid oedd yn gyfansoddiad cryf a'r borau yma cododd fel arfer ; aeth allan am dro i weld y defaid, dychwelodd, dywedodd ychydig eiriau wrth ei blant ac yna bu farw'n hollol sydyn. Pan yn ieuanc ar aelwyd ei dad a'i fam yn Cwmsydwydd yr oedd yn ffyddlon yng Nghapelyfadfa ond ers blynyddoedd yr oedd yn rhy bell i gyrchu yno ac ymaelododd y plant mewn Eglwysi Annibynol gerllaw Llanarth. Tua pum mlynedd yn ôl daeth a chorff ei wraig i orwedd i fynwent Capelyfadfa ; wedi hynny daeth â chorff mab a dydd Mawrth, Mehefin 26, dygwyd ei gorff yntau. Cafodd angladd parchus iawn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. O. Jones, Wern (A), Llanarth a E. O. Jenkins. Gadawodd i alaru bedair merch, wyrion ac un chwaer. Dyn tawel, gwastad ei gerddediad oedd Evan Davies.

Mehefin 22, yn 59 mlwydd oed, HANNAH JANE EVANS, priod Lewis Evans, Tynant, Ciliau Aeron. Cafodd ei chystuddio am hir amser, a gwannaidd fu ers llawer o flynyddau. Dynes dawel ydoedd, ac heb fod yn peri cyffro yn unman. Ond yr oedd ei thawelwch yn un oedd yn rhoi cyfle i'w geiriau gael eu clywed, a'u gweithredoedd gael eu gweled. Ac nid oedd eu geiriau byth yn rhai ofer, eithr bob amser yn rhai buddiol. Fel y wraig rinweddol y sonia'r Pregethwr amdani, hi a " Agorai ei genau yn ddoeth ". Yr oedd yn nodedig am ei doethineb, ac am ei gallu i drefnu amgylchiadau ei theulu. Er yn wannaidd ei hiechyd, parhaodd i gyfarwyddo ei theulu gyda'r materion hynny a berthyn i briod a mam. Bu yn frenhines ar ei haelwyd. Trigodd yn ei hardal mewn heddwch â phawb, a chan ennill iddi ei hun air da. Mwyach bydd ei lle yn wag, ond erys ei geiriau doeth a'i chynghorion da i gyfarwyddo ei phriod a'i phlant yn amgylchiadau eu bywyd yn y dyfodol. Er " wedi marw, yn llefaru eto ". Yn yr Eglwys blwyfol y cafodd ei dwyn i fyny, a pharhaodd yn aelod selog o honi ar hyd ei hoes. Claddwyd ym mynwent Eglwys Ciliau Aeron. Agnghyoedd oedd yr angladd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, Ciliau a Rhydygwin, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parchn. J. Williams, Ciliau Aeron ; T. Alban Davies, Aberarth ; a T. Meurig Davies, M.A., Winchcombe, swydd Gloucester. Gadawodd mewn galar dwys briod, tair merch, wyres fechan, mam oedrannus, brawd, ynghyd ag amryw o berthynasau eraill. Nodded y Nef fyddo drostynt oll.

Nodion yr Eglwysi.

Y GYMANFA GANU.—Bydd pwyllgor Cymanfa Ganu Ceredigion yn cyfarfod yng Nghapel-y-Bryn, am 4 o'r gloch (yn brydlon) nawn Sul, Gorffennaf 21ain. Disgwylir dau gynrychiolydd o bob eglwys, fel arfer. Yn y pwyllgor hwn fe ddewisir swyddogion y Gymanfa am y tair blynedd nesaf. Gan fod y pwyllgor a gynhaliwyd yn Aberystwyth ddydd y Gymanfa, wedi penderfynu uno â Chymanfa Morgannwg am 1936, fe rydd hyn gyfle i'r gwahanol eglwysi i awgrymu lle i gynal y Gymanfa y flwyddyn nesaf.—Dan Davies, *Ysgrifennydd.*

CRIBYN.—Dydd Iau, y 13eg o Fehefin, rhoddwyd i aelodau Ysgol Sul a chynulleidfa'r capel wledd o de. Y rhoddwyr eleni oedd a ganlyn—Mr. a Mrs. Evans, Maesyronnen; Mr. a Mrs. Jenkins, Glasfryn; Miss Davies, Talbot; Mrs. Harries, Three Horse Shoe; Miss Davies, Tangaer, a Miss Jones, Cwm Mynach. Daeth nifer luosog ynghyd i gyfranogi o'r danteithion a ddarparesid, a chaed prynhawn hwylus dros ben. Yn yr hwyr, caed cyfarfod adloniadol o adrodd a chanu, gan y plant yn bennaf, gyda chymorth amryw o rai mewn oed, dan lydwydiaeth y Parch. D. Evans, ac arweinyddiaeth Mr. D. Jones, y Felin. Cyn terfynu, cyflwynwyd diolch gwresog i roddwyr y wledd, yn ogystal ag i'r gwragedd a'r merched a fu'n gweini wrth y byrddau. Nodweddid gweithrediadau'r dydd o'r dechreu i'r diwedd gan ysbryd dymunol dros ben, ac ymwahanwyd ar y terfyn gyda dymuniad y ceir ei debig yn fuan iawn eto.

CAPEL-Y-GROES.—Dydd Mawrth, yr 11eg o Fehefin, caed gwledd dê, rhoddedig gan Mr. William Lewis, Frondes, Rhydaman, er cof am ei diweddar briod, Mrs. Lewis, a fu'n aelod ffyddlon o'r Eglwys yn y lle uchod o'i hieuenctid hyd ei marw ychydig flynyddoedd yn ôl. Gŵyr pawb a gafodd y fraint o adnabod Mrs. Lewis am ei sêl dros yr achos Undodaidd ymhob man; yn enwedig yng Nghapelygroes, a oedd mor agos at ei chalon. Nid rhywbeth arwynebol mo'i phroffes o Undodiaeth; medrai roddi rheswm dros y gobaith a oedd ynddi, fel y cafodd aml un a fu mewn dadl â hi, brofi. Cynorthwywyd y rhoddwr yn y darpariadau gan ei wyres a'i deuluyddes, Miss Richards, yn ogystal a chan ei blant, yr oll yn bresennol. O'r plant a'r teulu, nid oes ond un, bellach, yn aelod yng Nghapelygroes, sef, Mrs. Evans, Felinban. Daeth nifer anarferol luosog ynghyd o gymdogaeth Capelygroes, yn ogystal a chymdogaethau cylchynol—Cwrtnewydd, Brynhafod, etc—i amlygu eu parch i'r rhoddwr, y sydd frodor o Gwrtnewydd. Yn yr hwyr, caed cwrdd adloniadol llwyddiannus, dan lywyddiaeth Mr. Lewis, ac arweinyddiaeth y gweinidog, y Parch. D. J. Jones. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd diolch gwresog i Mr. Lewis a'r teulu ar ran y gynulleidfa gan y Parch. D. Evans, Cwmiago. Caed anerchiad hefyd, llawn hyd yr ymyl o ddymuniadau da, gan y Parch. L. G. Lewis, Trefdraeth, un o'r meibion. Diolch iddynt oll.

GRAIG, LLANDYSUL.—Carwn longyfarch ein brawd ifanc, Danny Jones, Glanrafon ar ennill ohono Medal Safon II yn Arholiad yr Ysgolion Sul.

ANRHYDEDD.—Da gennym am yr anrhydedd sydd wedi dod i ran Dr. Thomas Evans, M.O.H., Abertawe, drwy dderbyn o honno y King's Silver Jubilee Medal.

APEL.—Ar gais cyfeillion Undodaidd yn yr America yr wyf wedi bod am ddeunaw mis yn ceisio gwneud i fyny iddynt gyfrolau cyflawn o'r Ymofynnydd o'r cychwyn yn 1847. Mae y rhai canlynol yn eisiau eto a byddaf ddiolchgar iawn os gall rhai o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd eu gyrru i mi: 1847 Medi; 1848 Gorffennaf; 1862 Tachwedd; 1873 Mawrth hyd Rhagfyr; 1875 Ionawr hyd Awst, Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; 1876 Chwefror, ac o Ebrill hyd Rhagfyr; 1877 yr oll o honi; 1878 yr oll o honi; 1882 Mawrth, Ebrill; 1888 Mai; 1915 Gorffennaf; 1934 Medi hyd Rhagfyr.—E. O. Jenkins, Llwynmarles, Llandysul.

LLONGYFARCHIADAU i ddwy eneth ieuanc sydd o waed Undodaidd. Llwyddodd Megan James, Llanddewi Brefi a Marian Lewis, Holloway, Llundain, ennill y lle blaenaf yn Arholiad Cyngor Ysgolion Sabothol Presbyteriaid Cymreig gogledd sir Geredigion a Llundain. Daeth Megan James yn flaenaf yn ei dosbarth, a Marian Lewis yn flaenaf dan 13. Merch i Mr. a Mrs. Ben James, Ysgol Llanddewi Brefi yw Megan—gynt o Bontshaen—a merch i Mr. a Mrs. J. O. Lewis, Holloway, Llundain, gynt o Central Stores, Llanbedr, yw Marian. Llongyfarchiadau iddynt ill dwy.

PENTRE RHONDDA.—Dymunwn longyfarch yn galonnog y ddau hen gyfaill annwyl Mr. a Mrs. George Thomas, Treorci ar ddathlu ohonynt eu "priodas euraidd" ddechreu mis Mehefin. Hir oes a dedwyddwch eto i'r ddau.

CRONFA'R BWRDD PRESBYTERAIDD. Dymunir cydnabod yn ddiolchgar gyfraniad o 10s. oddiwrth y Parch. J. D. Jones, Trebanos.—W.S.J.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd—Mr. THOMAS DAVIES, Capel-y-bryn.

— CYNHELIR —

Cyfarfodydd Blynyddol

Y GYMDEITHAS UCHOD YNG

: : *Nghapel-y-Fadfa* : :

Mercher ac Iau, Gorffennaf 31, a Awst 1, 1935

TREFN Y CYFARFODYDD—

NOS FERCHER AM 6.30—Pregethir gan y Parchn. J. D. JONES, B.A., B.D., Trebanos a T. L. JONES, Cefncoed.

IAU AM 10.—Pwyllgor y Gymdeithas.

IAU AM 2.—Anerchiad gan y LLYWYDD a phregeth gan y Parch. Mortimer Rowe, B.A., Ysgrifennydd y General Assembly.

IAU AM 6.—Pregethir gan y Parchn. J. MARLES THOMAS, M.A. a E. R. DENNIS.

Bwriada Llywydd y General Assembly—Mr. G. G. ARMSTRONG a'r Ysgrifennydd—y Parch. MORTIMER ROWE fod yn bresennol.

Unrhyw un fydd am lety neu gerbyd i'w gyfarfod mewn gorsaf gwnaed hynny'n hysbys i mi, o leiaf wythnos cyn y cyrddau.

E. O. JENKINS.

RHAGLEN Y PWYLLGOR—

(1) Darllen Cofnodion.
(2) Adroddiad y Trysorydd.
(3) Adroddiad ar y Myfyrwyr.
(4) Ystyried cais oddiwrth Gymdeithas Morgannwg am gael gosod y Parch. Shirwell Price, M.A., Abertawe ar [1] y Pwyllgor Cynghorol ; [2] Pwyllgor Trysorfa'r Myfyrwyr.
(5) Ystyried cymeradwyaeth oddiwrth Bwyllgor y Myfyrwyr [1] I beidio gwneud *grant* i fyfyriwr nes cyrraedd o hono y Coleg ; [2] Cyn y gall gael ei gymeradwyo i'r Coleg fod yn rhaid iddo basio arholiad y *Matriculation*.
(6) Adroddiad ar " Llyfr Gwersi'r Ysgol Sul ".
(7) Y *Grants* am y flwyddyn.
(8) Ethol cynrychiolwyr ar [1] Pwyllgor Trysorfa'r Myfyrwyr ; [2] y Pwyllgor Cynghorol.
(9) Ethol Swyddogion : [*a*] Llywydd ; [*b*] Is-Lywydd ; [*c*] Trysorydd ; [*d*] Ysgrifennydd ; [*e*] Archwilwyr.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... 7/6 or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... 4/6 or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. 2/6 or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... 1/6 or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones

F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

31, GREAT DARKGATE ST.

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.